

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

YMCHWIL GYMDEITHASOL RHIF:

17/07/2024

DYDDIAD CYHOEDDI:

55/2024

# Adolygiad o'r Cynllun Lwfans Cynhaliaeth Addysg yng Nghymru: adroddiad technegol

This document is also available in English.

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

**OGL** © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83625-354-9

Adolygiad o'r Cynllun Lwfans Cynhaliaeth Addysg yng Nghymru:  
adroddiad technegol

Awduron: Nia Bryer, Heledd Bebb a Tanwen Grover, Ymchwil OB3



Bryer, B. Bebb, H & Grover, T. (2024). *Adolygiad o'r Cynllun Lwfans Cynhaliaeth Addysg ynn Nghymru: Adroddiad Technegol*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, Rhif adroddiad Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth 17/07/2024.

Ar gael: <https://www.llyw.cymru/adolygiad-or-lwfans-cynhaliaeth-addysg-rhagfyr-2023-i-mai-2024-adroddiad-terfynol>

Safbwyntiau'r ymchwilwyr ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Emma Hall

Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: [cyflogadwyedd.sgiliau.ymchwil@llyw.cymru](mailto:cyflogadwyedd.sgiliau.ymchwil@llyw.cymru)

## **Tabl cynnwys**

Atodiad A: Canllawiau trafod.....	2
Atodiad B: Offeryn arolwg ymgeiswyr LCA .....	61

## Atodiad A: Canllawiau trafod

Mae'r atodiad hon yn nodi canllawiau trafod ar gyfer:

1. cyfweld â swyddogion Llywodraeth Cymru a'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr yn ystod y cyfnod cwmpasu
2. hwyluso trafodaeth grŵp ffocws gyda derbynwyr cyfredol yr LCA sydd ym mlynnyddoedd 12 a 13
3. hwyluso trafodaeth grŵp ffocws gyda dysgwyr Blwyddyn 11
4. hwyluso grŵp ffocws gyda dysgwyr sydd a phrofiad o ofal ac sy'n derbyn yr LCA
5. hwyluso grŵp ffocws gyda dysgwyr nad ydynt yn derbyn yr LCA (ymgeiswyr aflwyddiannus / y rhai sydd ychydig dros y trothwy cymhwysedd)
6. hwyluso grwpiau ffocws gyda dysgwyr mewn lleoliadau addysgol Saesneg (sy'n byw yn Lloegr ac yn byw yng Nghymru, nad ydynt yn derbyn cefnogaeth yr LCA)
7. cyfweld â derbynwyr blaenorol yr LCA (sydd bellach wedi gadael yr ysgol / addysg bellach, carfan Blwyddyn 14 i bob pwrpas)
8. cyfweld â rhieni/gwarcheidwaid, gan gynnwys y rhai sy'n gyfrifol am ddysgwyr ag ADY
9. cyfweld â rhanddeiliaid allweddol yn ystod y cyfnod gwaith maes
10. cyfweld arweinwyr Canolfannau Ddysgu
11. cyfweld â gweinyddwyr cronfeydd i ddysgwyr y tu allan i Gymru.

## Canllaw trafod 1: Cyfweiliadau cwmpasu gyda rhanddeiliaid allweddol

*Bydd y cwestiynau hyn yn cael eu teilwra yn ôl rôl cyfranwyr a'u hymwneud â'r LCA ac ni ofynnir pob cwestiwn i bob cyfrannwr. Er enghraifft, bydd cwestiynau i swyddogion Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar y rhai sy'n ymwneud â pholisi ac angen; tra bydd cwestiynau i gynrychiolwyr SLC a'r Ganolfan Ddysgu yn canolbwyntio ar y rhai sy'n ymwneud â gweinyddu a dylunio. Mae'r cwestiynau'n ymwneud â chylch gwaith ehangach nag sy'n ofynnol o gyfweiliadau cwmpasu ond gobeithio y bydd hyn yn osgoi gorfod ail-gyfweld â'r un cyfranwyr yn ystod y cyfnod gwaith maes.*

### Cyflwyniad

1. Dywedwch wrthyf am eich ymwneud â chyllid myfyrwyr ôl-16, gan gynnwys yr LCA

### Polisi, rhesymeg a'r angen am LCA

2. Beth ydych chi'n ei ddeall yw nodau ac amcanion yr LCA?
  - Sut, os o gwbl, y mae'r amcanion hyn wedi newid dros amser?
3. Sut y disgwylir i'r LCA gyfrannu at bolisi a strategaeth Llywodraeth Cymru?
  - a. Pa bolisiâu a strategaethau allweddol y mae'n cyfrannu tuag atynt?
  - b. Pa mor dda yw aliniad yr LCA â'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol?
  - c. Sut mae'r LCA yn cefnogi Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr Cymraeg?
4. I ba raddau mae angen yr LCA?
  - a. Pam ydych chi'n dweud hyn?
  - b. Pa dystiolaeth sydd gennych am y rhwystrau ariannol presennol sy'n wynebu pobl ifanc o deuluoedd incwm isel i aros mewn addysg ffurfiol?
  - c. Sut mae'r angen am yr LCA wedi newid yng ngoleuni pwysau costau byw diweddar?
5. Pa ddarpariaeth cymorth statudol a dewisol arall sydd ar gael i fyfyrwyr yng Nghymru i gefnogi dysgwyr ôl-16?
  - a. Sut mae'r LCA yn cyd-fynd â'r rhain?
  - b. Sut mae'r LCA yn cyd-fynd â'r Gronfa Wrth Gefn Ariannol (FCF) sydd ar gael i ddysgwyr addysg bellach?
  - c. Sut y darparwyd unrhyw gyllid ychwanegol i sefydliadau addysg bellach i gefnogi dysgwyr yn ystod yr argyfwng costau byw a ddefnyddir?
  - d. Sut mae'r LCA yn cyd-fynd â chefnogaeth eraill fel cludiant am ddim a phrydau ysgol am ddim?
  - e. Faint o orgyffwrdd sydd yna o ran dysgwyr sy'n cael yr LCA a'r cymorthdaliadau eraill hyn?
6. Pa gynlluniau eraill sy'n targedu carfannau tebyg sydd ar gael e.e. Twf Swyddi Cymru+?
  - a. Sut mae'r LCA yn cymharu â'r rhain o ran cymhwysedd, y cynnig ariannol a dull o weithredu?

- b. Beth sy'n gweithio'n dda/nid cystal o safbwynt y cynlluniau hyn?
7. Sut mae'r LCA yn cymharu â darpariaeth cymorth ariannol i fyfyrwyr ôl-16 mewn rhannau eraill o'r DU?
- a. Beth yw'r prif wahaniaethau o ran meini prawf cymhwysedd rhwng Cymru a gwledydd datganoledig eraill?
  - b. Beth yw manteision ac anfanteision yr LCA?

## Dyluniad yr LCA

8. Pa mor briodol yw hi bod yr LCA ar gael i ddysgwyr ar sail incwm cartref?
- a. Beth yw eich barn ar y trothwyon cymhwysedd<sup>1</sup> (sydd heb newid ers 2011/12)
  - b. Beth yw eich barn am ystyried dibynyddion eraill ar yr aelwyd?
  - c. Pa newidiadau, os o gwbl, y dylid eu hystyried i'r trothwyon hyn?
  - d. Pa fodel cymhwyster arall y dylid ei ystyried? Pam ydych chi'n dweud hyn?
  - e. Pa mor briodol yw hi bod y cyllid yn cael ei dalu'n uniongyrchol i'r dysgwr yn hytrach nag i'r rhiant/gofalwr?
9. Pam y bu gostyngiad yn nifer y ceisiadau LCA a chafodd eu cymeradwyo ers 2010/11?
10. Beth sy'n cyfrif am y ffaith bod 73% o holl dderbynwyr yr LCA wedi'u lleoli mewn sefydliadau AB? Pam fod y ganran wedi cynyddu dros amser?
11. Ydych chi'n credu bod proffil derbynwyr yr LCA wedi newid dros amser? Os felly, beth sy'n cyfrif am hynny? Holwch sut mae wedi newid:
- a. O ran oedran
  - b. O ran cyrsiau cymwys
  - c. O ran lleoliad (AB/ysgol)?
  - d. O ran lleoliad gwledig/trefol?
  - e. Ydych chi'n credu bod yr LCA yn cefnogi'r myfyrwyr sydd â'r angen mwyaf? Pam ydych chi'n dweud hyn?
12. Pa mor briodol yw'r lwfans gyfredol o £40 yr wythnos<sup>2</sup>?
- a. A ddylid adolygu hyn o gwbl?
  - b. Sut y gellid pennu lefel lwfans priodol yn barhaus yn y dyfodol?
13. Beth mae'r 'categoriâu eithrio llawn' yn ei olygu ar gyfer LCA?
- a. Pa mor briodol yw'r rhain?

---

<sup>1</sup> Myfyrwyr sy'n byw mewn aelwyd sydd ag incwm blynyddol o £20,817 neu lai os yr ymgeisydd yw'r unig ddibynnydd, neu fyfyrwyr sy'n byw mewn cartref sydd ag incwm blynyddol o £23,077 neu lai os oes dibynyddion eraill ar yr aelwyd (dibynyddion yn 15 oed neu'n iau neu rhwng 16 ac 20 oed ac mewn addysg neu hyfforddiant llawn amser nad yw'n uwch; ac yn gymwys ar gyfer budd-dal plant).

<sup>2</sup> Ym mis Ebrill 2023, cynyddwyd y lwfans i £40 am y ddwy flynedd academaidd sydd i ddod.

## Gweinyddiaeth yr LCA

14. Beth fu'r newidiadau allweddol a wnaed i ganllawiau'r LCA a meini prawf cymhwysedd yr LCA dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf?
15. Beth mae'r cais LCA yn ei gynnwys o safbwynt dysgwr?
  - a. Beth yw'r goblygiadau i ddysgwyr (a rhieni/gwarcheidwaid) o gyflwyno cais electronig ar gyfer LCA?
  - b. Beth yw'r camau ymgeisio allweddol i ddysgwyr?
  - c. Ar ba sail mae ceisiadau'n cael eu gwrthod?<sup>3</sup>
16. Pa dystiolaeth sydd gennych am effaith cynyddu'r lwfans wythnosol (o £30 i £40)?
17. Pa newidiadau eraill sydd wedi'u gwneud i weithredu'r LCA dros y blynyddoedd diwethaf?
  - a. Pa effaith y mae'r newidiadau hyn wedi'u cael ar yr LCA?
18. Sut mae'r LCA yn cael ei farchnata i ddysgwyr a rhieni?
  - a. Pa mor effeithiol yw'r dulliau hyn?
  - b. Beth weithiodd yn dda?
  - c. Sut y gellid gwella ffordd y mae'r LCA yn cael ei hyrwyddo?
19. Sut mae Cytundebau Dysgu LCA yn cael eu gweinyddu?
  - a. Pa gamau y mae Canolfannau Dysgu yn eu cymryd i weinyddu a monitro'r rhain?
  - b. Pa mor effeithiol yw'r defnydd o Gytundebau Dysgu LCA?
20. Pa ddata monitro mae Canolfannau Dysgu yn ei gasglu am ymgysylltiad a phresenoldeb derbynwyr yr LCA?
  - a. Pa mor briodol yw presenoldeb fel mesur perfformiad?
  - b. Pa fesurau eraill y gellid eu defnyddio/eu casglu gan Ganolfannau Dysgu e.e. cwblhau gwaith cwrs, cyfraniad mewn gwaith/gwersi, ymddygiad ac ati
  - c. A yw'r trefniadau dewisol a gyflwynwyd mewn ymateb i bandemig Covid-19 (lle roedd Canolfannau Dysgu yn gweithredu ac yn cynnal eu polisiau presenoldeb eu hunain) yn dal i gael eu defnyddio?

## Y gwerthusiad hwn

21. Mae'r astudiaeth hon yn cynnwys ymgymryd â gwaith maes gydag ystod eang o gyfranwyr, gan gynnwys dysgwyr y dyfodol, presennol a blaenorol<sup>4</sup>. A oes gennych unrhyw farn ar ein rhaglen waith arfaethedig o ran:

---

<sup>3</sup> Mae 8% o'r holl geisiadau yn cael eu gwrthod

<sup>4</sup> Dysgwyr Blwyddyn 11; derbynwyr LCA Blwyddyn 12 a 13 cyfredol; derbynwyr blaenorol LCA (sydd bellach yn gadael yr ysgol/AB, carfan Blwyddyn 14 i bob pwrpas); pobl nad ydynt yn derbyn LCA

- a. Adnabod a recriwtio dysgwyr, yn enwedig y rhai mewn gofal, myfyrwyr sy'n ofalwyr a'r rhai ag ADY
- b. Y cwestiynau sydd angen i ni eu gofyn
- c. Y materion y gellid eu codi yn ystod ein sgysiau â dysgwyr?

## Dyfodol

22. A ddylai'r Llywodraeth barhau i gefnogi dysgwyr ôl-16 yn uniongyrchol yn ariannol yn y dyfodol?
  - a. Os felly, sut y dylai'r cymorth ariannol hwn fod ar gael e.e. sail statudol/dewisol?
  - b. Ar ba sail y dylai dysgwyr gael cymorth ariannol (e.e. incwm aelwydydd, presenoldeb, ar gyfer darpariaethau penodol)?
23. A allai Llywodraeth Cymru ddefnyddio'r gronfa LCA mewn ffordd fwy effeithiol?
  - a. Os felly, sut?
  - b. Sut allai'r LCA (neu gyfwerth) dargedu cymorth ariannol yn well tuag at y rhai sydd â'r angen mwyaf?
  - c. Sut y gellid cefnogi'r rhai mewn gofal, ymadawyr gofal a myfyrwyr sy'n ofalwyr yn fwyaf effeithiol?
  - d. Sut y gellid cefnogi dysgwyr ag ADY yn fwyaf effeithiol?
  - e. Sut y gellid cefnogi myfyrwyr o'r cefndiroedd mwyaf difreintiedig?
  - f. Pa ffyrdd/modelau eraill y gellid eu harchwilio i gyflawni canlyniadau tebyg?
24. Sut y gellir adolygu'r LCA (neu gyfwerth) yn barhaus yn y dyfodol?
  - a. Pa gamau/camau y gellid eu cymryd?

---

(ymgeiswyr aflwyddiannus / dysgu y tu allan i Gymru); arweinwyr ysgolion a cholegau AB; rhieni/gofalwyr; dysgwyr mewn gofal sy'n derbyn LCA; dysgwyr (a rhieni/gofalwyr) gydag ADY a sefydliadau rhanddeiliaid



## Canllaw trafod 2: Grŵp ffocws gyda derbynwyr yr LCA

*Gofynnir y cwestiynau hyn i dderbynwyr LCA ym Mlynnyddoedd 12 a 13 ar hyn o bryd, sy'n astudio mewn addysg bellach/chweched dosbarth ac ysgolion.*

### Cyflwyniad

Diolch am ddod i'r grŵp ffocws hwn. Rwyf yma ar ran Ymchwil OB3, gan ein bod yn cynnal adolygiad o'r Lwfans Cynhaliath Addysg (y cyfeirir ato'n aml fel yr LCA) ar gyfer Llywodraeth Cymru. Fel rhan o'r adolygiad hwn, hoffem siarad â dysgwyr sy'n derbyn yr LCA. Rydym hefyd yn siarad â dysgwyr eraill yn ogystal â rhieni, staff a grwpiau eraill. Bydd yr ymchwil yn cael ei ddefnyddio i ysgrifennu adroddiad ar gyfer Llywodraeth Cymru yn yr haf.

Mae'r meysydd yr hoffwn eu trafod gyda chi heddiw yn cynnwys:

- eich profiad o wneud cais am LCA
- sut rydych chi'n defnyddio'r arian (does dim ots sut rydych chi'n defnyddio'r arian, gallech chi fod yn ei ddefnyddio ar gyfer llyfrau ac offer neu ar gyfer mynd allan, mae'n bwysig i ni wybod sut mae'n cael ei wario. Nid oes unrhyw risg y byddwch yn colli'r LCA trwy rannu'r wybodaeth hon)
- y gwahaniaeth a wnaeth derbyn yr LCA i'ch penderfyniad i barhau mewn addysg a'r hyn y byddech wedi'i wneud heb y gefnogaeth
- y gwahaniaeth y mae derbyn yr LCA yn ei wneud i'ch presenoldeb a'ch perfformiad.

Cadarnhewch:

- Na fyddwch chi na'ch ysgol/coleg yn cael eich enwi, nac yn cael eich adnabod mewn unrhyw ffordd yn yr adroddiad a gyhoeddwyd
- Rwy'n disgwyl i'r drafodaeth gymryd tua awr
- Peidiwch ag ailadrodd yr hyn y mae pobl yn ei ddweud heddiw y tu hwnt i'r grŵp hwn
- Ni fyddaf yn rhannu'r hyn a ddwedwch gydag unrhyw un arall, oni bai bod risg o niwed i chi neu i rywun arall.
- [Lleoliadau Addysg Bellach yn unig] Rydym yn cynnig taleb o £10 fel diolch am eich amser.
- Llenwch ffurflen fer i roi rhywfaint o wybodaeth sylfaenol amdanoch chi'ch hun. Mi fydd hyn ond yn cael ei ddefnyddio i adrodd ar broffil y dysgwyr y byddwn yn siarad â nhw fel rhan o'r astudiaeth hon
- [fel y bo'n briodol] Gallwch gyfrannu naill ai yn Gymraeg neu yn Saesneg
- [Os yw'r grŵp iaith cymysg, esboniwch y byddwch yn crynhoi unrhyw gyfraniadau Cymraeg a wneir yn Saesneg]
- Os hoffech wneud unrhyw sylwadau yn gyfrinachol ar ôl y grŵp ffocws, yna gwnewch hynny ar ôl y sesiwn.

<b>Ffurflen Derbynwyr yr LCA</b>	
Enw	
Enw'r ysgol / coleg	
Oed	
Pa bynciau ydych chi'n eu hastudio ar hyn o bryd?	
Ydych chi'n derbyn LCA ar hyn o bryd	<input type="checkbox"/> am y tro cyntaf yn ystod y flwyddyn academaidd hon <input type="checkbox"/> am yr ail neu'r drydedd flwyddyn
Sut ydych chi'n gwario'r LCA? (e.e. teithio, bwyd, dillad, cymdeithasu, llyfrau, offer, rhent ac ati)	
Yn ogystal â'r LCA, a ydych yn derbyn unrhyw gymorth neu gefnogaeth ariannol arall:  <i>Ticiwch yr holl opsiynau perthnasol</i>	<input type="checkbox"/> Prydau ysgol neu goleg am ddim <input type="checkbox"/> Cludiant ysgol neu goleg am ddim neu gymhorthdal <input type="checkbox"/> Cymorth ariannol gan y coleg <input type="checkbox"/> Math arall o gymorth ariannol, nodwch os gwelwch yn dda: _____ <input type="checkbox"/> Nac ydw, dim <input type="checkbox"/> Ddim yn gwybod
Oes gennych chi brofiad o fod mewn gofal?	<input type="checkbox"/> Oes <input type="checkbox"/> Nac oes
Ydych chi'n gofalu am aelod arall o'r teulu?	<input type="checkbox"/> Ydw <input type="checkbox"/> Nac ydw
Oes gennych chi unrhyw anghenion dysgu ychwanegol, fel anhawster dysgu neu anabledd, sy'n ei gwneud hi'n anoddach i chi ddysgu?	<input type="checkbox"/> Oes <input type="checkbox"/> Nac oes
A oes gennych swydd gyflogedig hefyd?	<input type="checkbox"/> Oes <input type="checkbox"/> Nac oes
(Os ydych yn gweithio) Pryd ydych chi'n gweithio fel arfer yn y swydd gyflogedig hon?  <i>Ticiwch yr holl opsiynau perthnasol</i>	<input type="checkbox"/> Yn ystod yr wythnos (dyddiau a/neu gyda'r nos) <input type="checkbox"/> Ar y penwythnos <input type="checkbox"/> Yn ystod gwyliau'r ysgol neu goleg
Pa mor bwysig oedd y posibilrwydd o dderbyn yr LCA i'ch penderfyniad i aros mewn addysg?	<input type="checkbox"/> Pwysig iawn <input type="checkbox"/> Yn eithaf pwysig <input type="checkbox"/> Ddim y naill na'r llall

	<input type="checkbox"/> Ddim yn arbennig o bwysig <input type="checkbox"/> Ddim yn bwysig o gwbl <input type="checkbox"/> Ddim yn gwybod
Pe na byddech wedi derbyn yr LCA a fyddech chi wedi aros mewn addysg beth bynnag?	<input type="checkbox"/> Byddwn, yn bendant <input type="checkbox"/> Byddwn, o bosib <input type="checkbox"/> Ddim y naill na'r llall <input type="checkbox"/> Na, mae'n annhebygol <input type="checkbox"/> Na, yn bendant ddim <input type="checkbox"/> Ddim yn gwybod
A yw derbyn yr LCA yn eich helpu i fynychu'r ysgol neu'r coleg yn fwy rheolaidd?	<input type="checkbox"/> Ydy, yn bendant <input type="checkbox"/> Ydy, o bosib <input type="checkbox"/> Ddim y naill na'r llall <input type="checkbox"/> Na, dim felly <input type="checkbox"/> Na, yn bendant ddim <input type="checkbox"/> Ddim yn gwybod
Ydych chi'n fwy abl i gymryd rhan mewn gweithgareddau fel teithiau a gweithgareddau allgyrsiol oherwydd eich bod yn derbyn yr LCA?	<input type="checkbox"/> Ydw, yn bendant <input type="checkbox"/> Ydw, o bosib <input type="checkbox"/> Ddim y naill na'r llall <input type="checkbox"/> Na, dim felly <input type="checkbox"/> Na, yn bendant ddim <input type="checkbox"/> Ddim yn gwybod
Oes gennych chi unrhyw beth arall i'w ddweud am yr LCA?	

## Cyflwyniadau

1. Yn fyr, gofynnwch i'r rhai sy'n bresennol i gyflwyno eu hunain e.e. enw, pwnc/cyrsiau sy'n cael eu hastudio; p'un a ydynt yn gweithio'n rhan-amser yn ogystal ag astudio

## Clywed am, a gwneud cais am, yr LCA

2. Pryd wnaethoch chi glywed am yr LCA am y tro cyntaf?
  - A glywsoch chi amdano tra ym Mlwyddyn 11/yn yr ysgol neu (fel y bo'n briodol) ar ôl ymuno â'r chweched dosbarth/coleg?
  - Oeddech chi'n gwybod ei fod ar gael i ddysgwyr Blwyddyn 12/13 mewn ysgolion a lleoliadau AB?
  - Oedd hi'n hawdd neu'n anodd cael gwybod mwy am hyn?
  - Sut, os o gwbl, y gellid hyrwyddo'r LCA yn well i ddysgwyr (ac os yw'n berthnasol) eu rhieni/gwarcheidwaid?
3. Pam wnaethoch chi ymgeisio am yr LCA?
  - Pryd wnaethoch chi ymgeisio gyntaf?
4. Beth oeddech chi'n ei feddwl o'r broses ymgeisio (papur neu ar-lein<sup>5</sup>)?
  - Beth oedd yn hawdd neu'n anodd am y broses ymgeisio?
  - Pa mor hawdd neu anodd oedd cael gafael ar y wybodaeth angenrheidiol (e.e. manylion am incwm y cartref) i gefnogi eich cais?
  - A gawsoch unrhyw help i lenwi'r ffurflen gais (e.e. gan yr ysgol/coleg/rhieni)?
  - Sut y gellid gwneud y broses ymgeisio yn haws?
5. A oedd gennych gyfrif banc eisoes, neu a oedd yn rhaid i chi sefydlu un i dderbyn yr LCA?
  - Pwy arall sydd â mynediad i'ch cyfrif banc?

## Defnyddio'r LCA a'i bwysigrwydd i chi

6. Beth ydych chi'n gwario'ch arian LCA arno fel arfer?
  - Ydych chi'n ei ddefnyddio i brynu bwyd i chi'ch hun pan fyddwch yn y coleg/ysgol (e.e. brechwast neu ginio)?
  - Ydych chi'n ei ddefnyddio i brynu dillad?
  - A ydych yn ei ddefnyddio at ddibenion addysgol, fel costau teithio i'r coleg (tocynnau bws/trên neu gostau personol rhedeg car), i brynu llyfrau neu offer, neu i ariannu gweithgareddau allgyrsiol?
  - Ydych chi'n ei ddefnyddio at ddibenion cymdeithasol fel mynd allan?
  - A ydych yn ei ddefnyddio fel cyfraniad tuag at gostau cartref e.e. fel rhent i rieni/gwarcheidwaid neu i dalu unrhyw filiau cartref?

---

<sup>5</sup> Defnyddiwyd ffurflenni cais papur tan fis Tachwedd 2023. Ceisiadau ar-lein a ddefnyddiwyd o fis Tachwedd 2023 ymlaen. Ychydig iawn o geisiadau ar-lein sydd wedi'u gwneud hyd yn hyn.

- Ydych chi'n ei ddefnyddio i dalu am fwyd ar gyfer y cartref, neu fel cyfraniad tuag at gostau bwyd y cartref?
  - Pam ydych chi'n defnyddio'r lwfans yn y ffordd hon / hyn?
7. [I'r rhai a dderbyniwyd yr LCA yn ystod y flwyddyn academiaidd flaenorol 2022/23] Cynyddwyd yr LCA o £30 i £40 ym mis Ebrill 2023. Pa wahaniaeth mae hyn yn ei wneud?
8. Pa mor bwysig yw'r LCA i chi?
- A yw'n gyfraniad hanfodol neu'n braf ei gael?
  - Sut mae'n eich helpu i brynu pethau sydd eu hangen arnoch?
9. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae cost eitemau hanfodol fel bwyd, nwy a thrydan wedi bod yn cynyddu'n gyflym, gan roi pwysau ariannol ar deuluoedd ac aelwydydd. Faint o rôl sydd gan yr LCA i helpu'ch teulu gyda chostau cynyddol?
10. Pa gymorth ariannol arall ydych chi'n ei gael?
- Ydych chi'n derbyn cludiant am ddim neu gymhorthdal i'r coleg/ysgol?
  - Ydych chi'n cael prydau ysgol am ddim neu ginio â chymhorthdal yn y coleg?
  - [colegau AB yn unig] A yw eich coleg yn cynnig unrhyw gymorth neu gefnogaeth ariannol arall? Os felly, ydych chi wedi derbyn hyn?

## Cytundebau dysgu a monitro presenoldeb

11. Ydych chi'n gwybod beth yw'r Cytundeb Dysgu LCA?
- Beth oedd y broses o sefydlu hyn yn ei gynnwys?
  - Pa lefel o bresenoldeb sydd ei hangen arnoch chi fel rhan o'ch Cytundeb Dysgu LCA?
  - Faint o bwysigrwydd sy'n cael ei roi i'ch Cytundeb Dysgu LCA gan eich ysgol/coleg?
12. Sut mae eich presenoldeb mewn ysgol/coleg yn cael ei fonitro?
- Sut mae eich presenoldeb yn cael ei gofnodi (gan athro/tiwtor)?
  - Pa mor aml mae presenoldeb yn cael ei fonitro (e.e. pob gwrs, hanner diwrnod, yn ddyddiol)
  - Beth sy'n digwydd pan fyddwch chi'n colli'r ysgol neu'r coleg yn fwriadol? A yw hyn yn effeithio ar eich taliadau LCA?
  - Ai presenoldeb yw'r ffordd orau o roi'r lwfans LCA? Os felly, pam ydych chi'n dweud hynny / Os na, sut arall y gellid dyfarnu'r LCA?

## Gwahaniaeth a wnaed

13. Pa mor bwysig oedd (y posibilrwydd) o dderbyn yr LCA i'ch penderfyniad i aros mewn addysg a chofrestru ar y cwrs?
- Pa bethau eraill a ddylanwadodd ar eich penderfyniad i gofrestru ar y cwrs/parhau mewn addysg?
  - Fyddech chi wedi cofrestru ar y cwrs beth bynnag?
  - Pa mor debygol ydych chi o gwblhau'r cwrs?
14. Pa wahaniaeth (os o gwbl) y mae derbyn yr LCA yn ei gael:
- Ar eich presenoldeb yn yr ysgol/ coleg?
  - Ar faint ydych chi'n cymryd rhan mewn gwersi?
  - Ar faint ydych chi'n ei wneud gyda gweithgareddau allgyrsiol fel teithiau ysgol/ coleg?
15. A yw derbyn yr LCA yn golygu bod gennych fwy o amser i astudio y tu allan i'r ysgol/ coleg?
- A yw'n golygu nad oes rhaid i chi weithio mewn swydd â thâl, neu weithio llai o oriau mewn swydd â thâl?
  - [fel y bo'n briodol] A yw derbyn £40 yn hytrach na'r lwfans blaenorol o £30 yn gwneud unrhyw wahaniaeth i'r oriau y mae'n rhaid i chi weithio nawr wrth astudio?
16. Pa wahaniaeth ydych chi'n disgwyl y bydd derbyn yr LCA yn ei gael ar y graddau/cymwysterau y byddwch chi'n eu cyflawni (neu rydych chi wedi'u cyflawni e.e. lefel UG, os yn berthnasol)?
17. Oni bai eich bod wedi derbyn yr LCA, beth fyddai wedi digwydd? Er enghraifft:
- A fydddech wedi gorfod dod o hyd i waith rhan-amser/cynyddu'r oriau rydych chi'n gweithio mewn swydd?
  - A fydddech wedi mynd heb rywbeth (e.e. llyfrau) neu wedi peidio mynd ar deithiau?
  - (os yw'n berthnasol) Beth fyddai'r goblygiadau i'ch rhieni/gofalwyr?

## Barn ar ddyluniad yr LCA

18. Mae'r LCA ar gael yn y rhan fwyaf o achosion i fyfyrwyr o aelwydydd incwm isel<sup>6</sup>. Ydych chi'n meddwl bod hyn yn deg?
- Pam ydych chi'n dweud hwnna?

---

<sup>6</sup> Mae dau drothwy incwm cartref gwahanol ar gyfer cymhwyster, sy'n seiliedig ar amgylchiadau teuluol y myfyriwr: (1) Myfyrwyr sy'n byw mewn aelwyd sydd ag incwm blynyddol o £20,817 neu lai os ydi'r ymgeisydd yn unig ddibynnydd, neu (2) Myfyrwyr sy'n byw mewn aelwyd sydd ag incwm blynyddol o £23,077 neu lai os oes dibynnyddion eraill yn yr aelwyd (dibynnyddion sy'n 15 oed neu'n iau, 16 i 20 oed ac mewn addysg neu hyfforddiant llawn amser nad yw'n addysg uwch, ac yn gymwys i gael Budd-dal Plant).

- Ydych chi'n meddwl ei bod hi'n deg bod myfyrwyr sydd â brodyr neu chwiorydd sy'n dal i fod mewn addysg yn gallu cael yr LCA os ydyn nhw'n dod o aelwyd sydd ag incwm ychydig yn uwch? Pam ydych chi'n dweud hynny?
19. Ydych chi'n credu bod yr LCA yn cael ei ddefnyddio i gefnogi dysgwyr sydd ei angen fwyaf?
- Pam ydych chi'n dweud hyn?
  - A oes unrhyw ddysgwyr sy'n colli allan ar yr LCA? Pwy? Pam maen nhw'n colli allan e.e. ddim yn gwybod amdano, ddim yn gymwys/dim ond colli cyfle?
20. Beth ydych chi'n ei feddwl o'r lwfans presennol sydd ar hyn o bryd yn £40 yr wythnos?
- Ydy hyn yn ormod, rhy ychydig, neu'n iawn?
  - A ddylai'r lwfans gael ei leihau neu ei gynyddu? Os felly, faint sydd?
21. A yw eich ffrindiau ysgol / coleg yn gwybod am yr LCA?
- Beth maen nhw'n ei feddwl ohono?
  - A oes unrhyw stigma ynghlwm wrth ei dderbyn? Trwy 'stigma' rwy'n golygu agwedd neu syniad negyddol am berson oherwydd eu hamgylchiadau cymdeithasol. Os felly, sut y gellid dileu'r stigma hwn?

## Dyfodol

22. Sut y gellid gwella'r LCA?
23. Allwch chi feddwl am ffordd well o gefnogi dysgwyr yn ariannol, yn hytrach na drwy'r LCA fel y mae nawr?
- Os felly, sut?
  - Sut y gallai'r rhai sydd â phrofiad o ofal gael eu cefnogi'n well yn ariannol?
  - Sut y gellid cefnogi dysgwyr ag ADY yn well yn ariannol?
  - Sut y gellid cefnogi dysgwyr sy'n ei chael hi'n anodd ymdopi'n ariannol?
  - Pa ffyrdd eraill o ddarparu cymorth ariannol fyddai hefyd yn eich helpu i barhau â'ch addysg?

## Canllaw trafod 3: Grŵp ffocws rhithwir gyda derbynwyr yr LCA sydd â phrofiad o ofal

*Gofynnir y cwestiynau hyn i dderbynwyr yr LCA sydd â phrofiad o ofal, sydd ym Mlynnyddoedd 12 a 13 ar hyn o bryd, ac yn astudio mewn addysg bellach/chweched dosbarth ac ysgolion.*

### Cyflwyniad

Diolch am ddod i'r grŵp ffocws hwn. Rwyf yma ar ran Ymchwil OB3, gan ein bod yn cynnal adolygiad o'r Lwfans Cynhaliath Addysg (y cyfeirir ato'n aml fel yr LCA) ar gyfer Llywodraeth Cymru. Fel rhan o'r adolygiad hwn, hoffem siarad â dysgwyr sydd â phrofiad o ofal sy'n derbyn yr LCA. Mae pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal yn aml yn cael eu tangynrychioli mewn ymchwil a dyna pam rydym yn gofyn yn benodol i chi rannu eich barn a'ch profiadau. Rydym hefyd yn siarad â dysgwyr eraill yn ogystal â rhieni, staff a grwpiau eraill. Bydd yr ymchwil yn cael ei ddefnyddio i ysgrifennu adroddiad ar gyfer Llywodraeth Cymru yn yr haf.

Mae'r meysydd yr hoffwn eu trafod gyda chi heddiw yn cynnwys:

- eich profiad o wneud cais am yr LCA
- sut rydych chi'n defnyddio'r arian (does dim ots sut rydych chi'n defnyddio'r arian, gallech chi fod yn ei ddefnyddio ar gyfer llyfrau ac offer neu ar gyfer mynd allan, mae'n bwysig i ni wybod sut mae'n cael ei wario. Nid oes unrhyw risg y byddwch yn colli'r LCA trwy rannu'r wybodaeth hon)
- y gwahaniaeth a wnaeth derbyn yr LCA i'ch penderfyniad i barhau mewn addysg a'r hyn y byddech wedi'i wneud heb y gefnogaeth
- y gwahaniaeth y mae derbyn yr LCA yn ei wneud i'ch presenoldeb a'ch perfformiad.

Cadarnhewch:

- Na fyddwch chi na'ch ysgol/coleg yn cael eich enwi, nac yn cael eich adnabod mewn unrhyw ffordd yn yr adroddiad a gyhoeddwyd
- Rwy'n disgwyl i'r drafodaeth gymryd tua awr
- Peidiwch ag ailadrodd yr hyn y mae pobl yn ei ddweud heddiw y tu hwnt i'r grŵp hwn
- Ni fyddaf yn rhannu'r hyn a ddwedwch gydag unrhyw un arall, oni bai bod risg o niwed i chi neu i rywun arall.
- Rydym yn cynnig taleb o £10 fel diolch am eich amser. Bydd hyn yn cael ei ddarparu i chi fel e-daleb trwy e-bost.
- [Fel y bo'n briodol] Gallwch gyfrannu naill ai yn Gymraeg neu yn Saesneg.
- [Os yw'n grŵp iaith cymysg, esboniwch y byddwch yn crynhoi unrhyw gyfraniadau Cymraeg a wneir yn Saesneg]
- Os hoffech wneud unrhyw sylwadau yn gyfrinachol, defnyddiwch y swyddogaeth sgwrsio i anfon neges ataf yn uniongyrchol yn ystod neu ar ôl y sesiwn.



## Cyflwyniadau

1. Yn fyr, gofynnwch i'r rhai sy'n bresennol gyflwyno eu hunain e.e. enw, p'un a ydynt yn mynychu'r ysgol neu addysg bellach, p'un a ydynt yn gweithio'n rhan-amser yn ogystal ag astudio.

## Clywed am, a gwneud cais am, yr LCA

2. Pryd wnaethoch chi glywed am yr LCA am y tro cyntaf?
  - A glywsoch chi amdano tra ym Mlwyddyn 11/yn yr ysgol neu (fel y bo'n briodol) ar ymuno â'r chweched dosbarth/coleg?
  - A wnaeth eich awdurdod lleol neu'ch darparwr gofal ddweud wrthych amdano?
  - Oeddech chi'n gwybod ei fod ar gael i ddysgwyr Blwyddyn 12/13 mewn ysgolion a lleoliadau AB?
  - A oedd hi'n hawdd neu'n anodd cael gwybod mwy?
  - Sut, os o gwbl, y gellid hyrwyddo'r LCA yn well i'r rhai mewn gofal a (lle bo hynny'n briodol) gofalwyr maeth?
3. Beth oeddech chi'n ei feddwl o'r broses ymgeisio (papur neu ar-lein<sup>7</sup>)?
  - Beth oedd yn hawdd neu'n anodd am y broses ymgeisio?
  - Pa mor hawdd neu anodd oedd cael gafael ar y wybodaeth angenrheidiol<sup>8</sup> i gefnogi eich cais?
  - A gawsoch unrhyw gymorth i lenwi'r ffurflen gais (e.e. gan ddarparwr ysgol/coleg/gofalwr)?
  - Sut y gellid gwneud y broses ymgeisio yn haws?
4. A oedd gennych gyfrif banc eisoes, neu a oedd yn rhaid i chi sefydlu un i dderbyn yr LCA?
  - Pwy arall sydd â mynediad i'ch cyfrif banc?

## Defnyddio'r LCA a'i bwysigrwydd i chi

5. Beth ydych chi'n gwario'ch arian LCA arno fel arfer?
  - Ydych chi'n ei ddefnyddio i brynu bwyd i chi'ch hun pan fyddwch yn y coleg/ysgol (e.e. brechwast neu ginio)?
  - Ydych chi'n ei ddefnyddio i brynu dillad?

---

<sup>7</sup> Defnyddiwyd ffurflenni cais papur tan fis Tachwedd 2023. Ceisiadau ar-lein a ddefnyddiwyd o fis Tachwedd 2023 ymlaen. Ychydig iawn o geisiadau ar-lein sydd wedi'u gwneud hyd yn hyn.

<sup>8</sup> Sylwch fod y rhai sydd a phrofiad o ofal wedi'u heithrio o elfen proses brofi incwm yr LCA, felly nid oes angen iddynt ddarparu manylion ar gyfer incwm eu cartref.

- A ydych yn ei ddefnyddio at ddibenion addysgol, fel costau teithio i'r coleg (tocynnau bws/trên neu gostau personol rhedeg car), i brynu llyfrau neu offer, neu i ariannu gweithgareddau allgyrsiol?
  - Ydych chi'n ei ddefnyddio at ddibenion cymdeithasol fel mynd allan?
  - A ydych yn ei ddefnyddio fel cyfraniad tuag at gostau cartref e.e. fel rhent i rieni/gwarcheidwaid neu i dalu unrhyw filiau cartref?
  - Ydych chi'n ei ddefnyddio i dalu am fwyd gartref, neu fel cyfraniad tuag at gostau bwyd cartref?
  - Pam ydych chi'n defnyddio'r lwfans yn y ffordd hon / hyn?
6. [I'r rhai oedd yn derbyn yr LCA yn ystod y flwyddyn academaidd flaenorol 2022/23] Cynyddwyd yr LCA o £30 i £40 ym mis Ebrill 2023. Pa wahaniaeth mae hyn yn ei wneud?
7. Pa mor bwysig yw'r LCA i chi?
- A yw'n gyfraniad hanfodol neu'n braf ei gael?
  - Sut mae'n eich helpu i brynu pethau sydd eu hangen arnoch?
8. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae cost eitemau hanfodol fel bwyd, nwy a thrydan wedi bod yn cynyddu'n gyflym, gan roi pwysau ariannol ar deuluoedd ac aelwydydd. Faint o rôl sydd gan yr LCA i'ch helpu gyda chostau cynyddol?
9. Pa gefnogaeth ariannol arall sydd gennych chi?
- Ydych chi'n derbyn cludiant am ddim neu gymhorthdal cludiant i'r coleg/ysgol?
  - Ydych chi'n cael prydau ysgol am ddim neu chymhorthdal ginio yn y coleg?

### Cytundebau dysgu a monitro presenoldeb

10. Ydych chi'n gwybod beth yw'r Cytundeb Dysgu LCA? Beth yw eich barn am hyn?
11. Sut mae eich presenoldeb mewn ysgol/coleg yn cael ei fonitro?
- Beth sy'n digwydd pan fyddwch chi'n colli'r ysgol neu'r coleg yn fwriadol? A yw hyn yn effeithio ar eich taliadau LCA?
  - Ai presenoldeb yw'r ffordd orau o roi'r Lwfans LCA? Os felly, pam ydych chi'n dweud hynny / Os na, sut arall y gellid dyfarnu'r LCA?

### Gwahaniaeth a wnaed

12. Pa mor bwysig oedd (y posibilrwydd) o dderbyn yr LCA i'ch penderfyniad i aros mewn addysg a chofrestru ar y cwrs?
- Pa bethau eraill a ddylanwadodd ar eich penderfyniad i gofrestru ar y cwrs/parhau mewn addysg?

- Fyddech chi wedi cofrestru ar y cwrs beth bynnag? Pa mor debygol ydych chi o gwblhau'r cwrs?
13. Pa wahaniaeth (os o gwbl) y mae derbyn yr LCA yn ei gael:
- Ar eich presenoldeb yn yr ysgol/ coleg?
  - Ar faint ydych chi'n cymryd rhan mewn gwersi?
  - Ar faint o weithgareddau allgyrsiol fel teithiau ysgol/ coleg yr ydych yn ei wneud?
14. A yw derbyn yr LCA yn golygu bod gennych fwy o amser i astudio y tu allan i'r ysgol/ coleg?
- A yw'n golygu nad oes rhaid i chi weithio mewn swydd â thâl, neu weithio llai o oriau mewn swydd â thâl?
  - [fel y bo'n briodol] A yw derbyn £40 yn hytrach na'r lwfans blaenorol o £30 yn gwneud unrhyw wahaniaeth i'r oriau y mae'n rhaid i chi weithio nawr wrth astudio?
15. Pa wahaniaeth ydych chi'n disgwyl y bydd derbyn yr LCA yn ei gael ar y graddau/cymwysterau y byddwch chi'n eu cyflawni (neu rydych chi wedi'u cyflawni e.e. lefel UG, os yn berthnasol)?
16. Oni bai eich bod wedi derbyn LCA, beth fyddai wedi digwydd? Er enghraifft:
- A fydddech wedi gorfod dod o hyd i waith rhan-amser/cynyddu'r oriau rydych chi'n gweithio mewn swydd?
  - A fydddech wedi mynd heb rywbeth (e.e. llyfrau) neu wedi beidio mynd ar deithiau?

## Barn ar ddyluniad yr LCA

17. Byddwch yn ymwybodol nad oes angen i'r rhai sydd â phrofiad o ofal ddarparu gwybodaeth am incwm eu cartref i ddangos eu bod yn byw mewn aelwyd incwm isel, ac yn gymwys yn awtomatig ar gyfer yr LCA ar yr amod eu bod yn bodloni'r meini prawf eraill sy'n gysylltiedig â'r gronfa. Ydych chi'n meddwl bod hyn yn briodol?
- Pam ydych chi'n dweud hynny?
18. Ydych chi'n credu bod yr LCA yn cael ei ddefnyddio i gefnogi dysgwyr sydd ei angen fwyaf?
- Pam ydych chi'n dweud hyn?
  - A oes unrhyw ddysgwyr sy'n colli allan ar yr LCA? Pam maen nhw'n colli allan e.e. ddim yn gwybod amdano, meini prawf cymhwysedd?
19. Beth ydych chi'n ei feddwl o'r lwfans sydd ar hyn o bryd yn £40 yr wythnos?
- Ydy hyn yn ormod, rhy ychydig, neu'n iawn?
  - A ddylai'r lwfans gael ei leihau neu ei gynyddu? Os felly, faint sydd?

20. A yw eich ffrindiau ysgol / coleg yn gwybod am yr LCA?
- Beth maen nhw'n ei feddwl ohono?
  - A oes stigma ynghlwm wrth ei dderbyn? Trwy 'stigma' rwy'n golygu agwedd neu syniad negyddol am berson oherwydd eu hamgylchiadau cymdeithasol. Os felly, sut y gellid dileu'r stigma hwn?

## Dyfodol

21. Sut y gellid gwella'r LCA?
22. Allwch chi feddwl am ffordd well o gefnogi dysgwyr yn ariannol, yn hytrach na gydag LCA fel y mae nawr?
- Os felly, sut?
  - Sut y gallai dysgwyr sydd â phrofiad o ofal gael eu cefnogi'n well yn ariannol?

## Canllaw trafod 4: Grŵp ffocws gyda dysgwyr Blwyddyn 11

*Gofynnir y cwestiynau hyn i ddysgwyr Blwyddyn 11, sy'n astudio mewn ysgolion ar hyn o bryd, sy'n debygol o fod yn gymwys i gael LCA ym Mlynnyddoedd 12 a 13 os byddant yn parhau mewn addysg, boed hynny mewn ysgol neu goleg. Yn ddelfrydol, dylai mynychwyr grwpiau ffocws gynnwys dysgwyr prydu ysgol am ddim, rhai sydd â phrofiad o ofal, myfyrwyr sy'n ofalwyr, y rhai ag ADY, a chymysgedd dysgwyr o ran cynlluniau yn y dyfodol, gan gynnwys y rhai sy'n debygol/annhebygol o astudio cymwysterau ôl-16 yn yr ysgol a/neu'r coleg.*

### Cyflwyniad

Diolch am ddod heddiw. Rwy'n gweithio i OB3 Research, ac rydym yn adolygu'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg (y gallech fod wedi clywed amdano ac yn ei adnabod fel yr LCA) ar gyfer Llywodraeth Cymru. Fel rhan o'r adolygiad hwn, rydym am gael adborth gan ddysgwyr a allai fod yn gymwys ar gyfer yr LCA. Rydym hefyd yn siarad â dysgwyr eraill yn ogystal â rhieni, staff a grwpiau eraill o bobl. Bydd yr ymchwil yn cael ei ddefnyddio i ysgrifennu adroddiad ar gyfer Llywodraeth Cymru yn yr haf.

Mae'r meysydd yr hoffwn eu trafod gyda chi heddiw yn cynnwys:

- eich cynlluniau ar gyfer y dyfodol
- p'un a ydych wedi clywed am yr LCA a bod gennych gynlluniau i wneud cais amdano
- y gwahaniaeth y byddai derbyn yr LCA yn ei wneud i chi a beth fyddwch yn debygol o'i wneud heb y gefnogaeth

Cadarnhewch:

- Ni fyddwch chi na'ch ysgol/coleg yn cael eich enwi, nac yn cael eich adnabod mewn unrhyw ffordd yn yr adroddiad a gyhoeddwyd.
- Rwy'n disgwyl i'r drafodaeth gymryd 3/4 awr
- Peidiwch ag ailadrodd yr hyn y mae pobl yn ei ddweud heddiw y tu hwnt i'r grŵp hwn
- Ni fyddaf yn rhannu'r hyn a ddwedwch gydag unrhyw un arall, oni bai bod risg o niwed i chi neu i rywun arall.
- Llenwch ffurflen fer i roi rhywfaint o wybodaeth sylfaenol amdanoch chi'ch hun. Bydd hyn ond yn cael ei ddefnyddio gennym i adrodd ar broffil y myfyrwyr y byddwn yn siarad â nhw fel rhan o'r astudiaeth hon.
- [Fel y bo'n briodol] Gallwch gyfrannu naill ai yn Gymraeg neu yn Saesneg.
- [Os yw'r grŵp iaith cymysg, esboniwch y byddwch yn crynhoi unrhyw gyfraniadau Cymraeg a wneir yn Saesneg]
- Os hoffech wneud unrhyw sylwadau yn gyfrinachol ar ôl y grŵp ffocws, yna gwnewch hynny ar ôl y sesiwn.

<b>Dysgwyr Blwyddyn 11</b>	
Enw	
Enw'r ysgol	
Ydych chi'n derbyn prydau ysgol am ddim?	<input type="checkbox"/> Ydw <input type="checkbox"/> Nac ydw
Oes gennych chi brofiad o fod mewn gofal?	<input type="checkbox"/> Oes <input type="checkbox"/> Nac oes
Ydych chi'n gofalu am aelod arall o'r teulu?	<input type="checkbox"/> Ydw <input type="checkbox"/> Nac ydw
Oes gennych chi unrhyw anghenion dysgu ychwanegol, fel anhawster dysgu neu anabledd, sy'n ei gwneud hi'n anoddach i chi ddysgu?	<input type="checkbox"/> Oes <input type="checkbox"/> Nac oes
Oes gennych chi swydd gyflogedig?	<input type="checkbox"/> Oes <input type="checkbox"/> Nac oes
(Os ydych yn gweithio) Pryd ydych chi'n gweithio fel arfer yn y swydd gyflogedig hon? <i>Ticiwch yr holl opsiynau perthnasol</i>	<input type="checkbox"/> Yn ystod yr wythnos cyn/ar ôl ysgol <input type="checkbox"/> Ar y penwythnos <input type="checkbox"/> Yn ystod gwyliau'r ysgol

## Cyflwyniadau

1. Yn fyr, gofynnwch i'r rhai sy'n bresennol gyflwyno eu hunain e.e. enw, pynciau a astudiwyd; p'un a ydynt yn gweithio'n rhan-amser yn ogystal ag astudio
2. Ydych chi'n gwybod eto beth yw eich cynlluniau ar gyfer y flwyddyn nesaf (h.y. blwyddyn academaidd 2023/24)?
  - Ydych chi'n ystyried aros mewn addysg? Os felly, ydych chi'n ystyried aros yn yr ysgol neu astudio yn y coleg?

## Clywed am y cymorth ariannol / LCA sydd ar gael

3. Ydych chi'n gwybod pa gymorth ariannol y gallech chi ei gael y flwyddyn nesaf os wnewch chi aros mewn addysg?
  - Pa gymorth ydych chi' n meddwl allech chi ei gael os wnewch chi aros yn yr ysgol?
  - Pa gymorth ydych chi'n meddwl allech chi ei gael os wnewch chi astudio mewn coleg?
4. Ydych chi wedi clywed am yr LCA? *[Rhowch wybodaeth am yr LCA fel y bo'n briodol i helpu dysgwyr i ymateb i gwestiynau e.e. mae'n lwfans wythnosol o £40, i'r rhai o aelwyd incwm isel, a delir os yw dysgwyr yn mynychu addysg boed hynny yn yr ysgol neu'r coleg. Rhaid i ddysgwyr wneud cais amdano a gwneir taliad bob pythefnos]*
  - Pwy ddywedodd wrthyfych chi am yr LCA?
  - Ydych chi wedi cael gwybodaeth am yr LCA o'r ysgol, neu o goleg cyfagos? (Os o'r coleg – a oedd hyn yn ystod ymweliad diwrnod agored neu a ddaeth cynrychiolydd coleg i'r ysgol i siarad â chi)
  - Oeddech chi'n gwybod y gallech gael yr LCA petai chi'n astudio mewn ysgol neu goleg?
  - [Lle bo'n berthnasol] Pa mor hawdd neu anodd oedd cael gwybod mwy?
  - Sut, os o gwbl, y gellid hyrwyddo/hysbysebu'r LCA yn well?
5. [Os ydych chi'n bwriadu aros mewn addysg] Ydych chi'n meddwl y byddwch chi'n gwneud cais am LCA?
  - Ydych chi'n credu y byddwch chi'n gymwys ar gyfer yr LCA?

## Pwysigrwydd LCA i chi

6. Pa mor bwysig fydd hi i chi dderbyn yr LCA ym mlynnyddoedd 12 a 13?
  - Sut ydych chi'n meddwl y bydd yn eich helpu i fforddio pethau fydd eu hangen arnoch?

## Gwahaniaeth a wnaed

7. Pa mor bwysig yw'r posibilrwydd o dderbyn LCA i'ch penderfyniad i barhau mewn addysg y flwyddyn nesaf?
  - Pa bethau eraill y byddwch chi'n eu hystyried wrth wneud penderfyniad ynghylch aros mewn addysg?
  - A fyddwch chi'n aros mewn addysg beth bynnag, hyd yn oed os na fyddwch chi'n derbyn yr LCA?
8. Ydych chi'n meddwl y bydd derbyn yr LCA y flwyddyn nesaf yn ei gwneud hi'n haws i chi fynd ar deithiau maes a gwneud gweithgareddau allgyrsiol?
  - Pam ydych chi'n dweud hyn?
9. A ydych chi'n credu y bydd derbyn Lwfans LCA y flwyddyn nesaf yn golygu bod gennych fwy o amser i astudio y tu allan i'r ysgol/coleg?
  - A fydd yn golygu na fydd yn rhaid i chi gael (neu parhau mewn) swydd â thâl, neu weithio llai o oriau mewn swydd â thâl?
10. Os byddwch yn derbyn yr LCA y flwyddyn nesaf, a ydych chi'n credu y gwnewch chi ddefnyddio rhywfaint neu'r cyfan ohono i helpu eich rhieni, fel talu am fwyd, biliau cartref neu fel rhent?
11. Os na fyddwch yn derbyn yr LCA, beth ydych chi'n meddwl y byddwch chi'n ei wneud? Er enghraifft:
  - A fyddwch yn ceisio dod o hyd i waith yn hytrach nag aros mewn addysg?
  - A wnewch chi ddewis cwrs gwahanol e.e. dewis prentisiaeth, neu ddewis ysgol yn hytrach na choleg, neu i'r gwrthwyneb?
  - A fyddwch yn dod o hyd i waith rhan-amser/cynyddu'r oriau rydych yn gweithio mewn swydd?
  - A fyddwch yn mynd heb rywbeth (e.e. llyfrau) neu'n dewis peidio mynd ar deithiau?

## Barn ar ddyluniad yr LCA

12. Efallai eich bod yn ymwybodol bod yr LCA ar gael yn y rhan fwyaf o achosion i fyfyrwyr o aelwydydd incwm isel. Ydych chi'n meddwl bod hyn yn deg?
  - Pam ydych chi'n dweud hynny?
13. Beth ydych chi'n ei feddwl o'r lwfans presennol, sy'n £40 yr wythnos?
  - Ydy hyn yn ormod, rhy ychydig, neu'n iawn?
  - A ddylai'r lwfans gael ei leihau neu ei gynyddu? Os felly, faint sydd?

## Dyfodol

14. Pa gefnogaeth, gan gynnwys unrhyw gymorth ariannol, fyddai'n ei gwneud hi'n haws i chi aros mewn addysg?



- Sut y gallai'r rhai sydd â phrofiad o ofal gael eu cefnogi'n well?
- Sut y gellid cefnogi gofalwyr ifanc yn well?
- Sut y gellid cefnogi dysgwyr ag ADY yn well?
- Sut y gellid cefnogi dysgwyr sy'n ei chael hi'n anodd ymdopi'n ariannol?

## Canllaw trafod 5: Grŵp ffocws gyda derbynwyr nad ydynt yn LCA

*Gofynnir y cwestiynau hyn i ymgeiswyr aflwyddiannus yr LCA neu ddysgwyr a allai fod yn cael trafferthion ariannol ar hyn o bryd ac sydd ym Mlynnyddoedd 12 a 13 ac sydd yn cael eu haddysg mewn coleg addysg bellach/chweched dosbarth.*

### Cyflwyniad

Diolch am ddod i'r grŵp ffocws hwn. Rwyf yma ar ran Ymchwil OB3, gan ein bod yn cynnal adolygiad o'r Lwfans Cynhaliath Addysg (y cyfeirir ato'n aml fel yr LCA) ar gyfer Llywodraeth Cymru. Fel rhan o'r adolygiad hwn, hoffem gael adborth wrth ymgeiswyr aflwyddiannus yr LCA neu y rheiny sydd yn anghymwys am gymorth, gan fod incwm eu cartref ychydig yn uwch na'r trothwy incwm. Rydym hefyd yn siarad â dysgwyr eraill yn ogystal â rhieni, staff a grwpiau eraill. Bydd yr ymchwil yn cael ei ddefnyddio i ysgrifennu adroddiad ar gyfer Llywodraeth Cymru yn yr haf.

Mae'r meysydd yr hoffwn eu trafod gyda chi heddiw yn cynnwys:

- eich profiad o wneud cais am yr LCA (fel y bo'n briodol)
- sut y gallai peidio â derbyn LCA fod wedi effeithio arnoch chi, eich astudiaethau a'ch presenoldeb
- sut rydych chi'n talu am bethau heb gefnogaeth yr LCA.

Cadarnhewch:

- Ni fyddwch chi na'ch ysgol/coleg yn cael eich enwi, nac yn cael eich adnabod mewn unrhyw ffordd yn yr adroddiad a gyhoeddwyd.
- Rwy'n disgwyl i'r drafodaeth gymryd tua awr
- Peidiwch ag ailadrodd yr hyn y mae pobl yn ei ddweud heddiw y tu hwnt i'r grŵp hwn
- Ni fyddaf yn rhannu'r hyn a ddwedwch gydag unrhyw un arall, oni bai bod risg o niwed i chi neu i rywun arall.
- [Cyfranwyr Colegau AB yn unig] Rydym yn cynnig taleb o £10 fel diolch am eich amser.
